

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

SC(3)-05-07 (p1): 18 Hydref 2007

Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol

Adran 1: Diben

Tystiolaeth gan y Gymdeithas Adwerthu Ynni i'r Ymchwiliad ar Ostwng Carbon yng Nghymru

Ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor a gynhelir ddydd Iau 18 Hydref 2007

Adran 2: Cefndir

Y Gymdeithas Adwerthu Ynni (ERA)

Ffurfiwyd y Gymdeithas Adwerthu Ynni (ERA) yn 2003 ac mae'n cynrychioli'r cyflenwyr trydan a nwy yn y farchnad ddomestig yng Nghymru. Mae'r holl brif gyflenwyr ynni sy'n gweithredu yn y farchnad ddomestig ym Mhrydain Fawr yn aelodau o ERA - sef Nwy Prydain, E.on Powergen, ScottishPower, EDF Energy, Scottish and Southern Energy a RWE npower. Rheolwyr Gyfarwyddwyr y chwe chwmni hyn yw Bwrdd yr ERA sy'n gweithio'n agos gyda Duncan Sedgwick, y Prif Weithredwr. Cadeirydd y Bwrdd yw Willie MacDiarmid, Rheolwr Gyfarwyddwr, Adwerthu Ynni ScottishPower.

Yn y pedair blynedd y bu mewn bodolaeth, mae ERA wedi canolbwyntio ar ganfod ffyrdd i wella profiadau cwsmeriaid gyda'u cyflenwyr trydan a nwy. Mae hyn yn golygu ein bod yn arwain ar faterion megis:

Cyflwyno cynlluniau effeithlonrwydd ynni
Mynd i'r afael â thlodi tanwydd a diogelu cwsmeriaid bregus
Sicrhau arfer gwerthu da
Datblygu systemau didrafferth ar gyfer newid cyflenwr nwy neu drydan
Datblygu safon y diwydiant ar gyfer bilio cwsmeriaid
Atal dyled a datgysylltiadau

I hyrwyddo'r nodau hyn, mae ERA yn gweithio'n agos gyda llywodraeth, sefydliadau anllywodraethol, elusennau a sefydliadau eraill i sicrhau ymagwedd gydlynol at ddelio gyda'r materion allweddol sy'n effeithio ar ein diwydiant a defnyddwyr ym Mhrydain. Nid yw'r brif ddyletswydd am reoleiddio'r diwydiant cyflenwi ynni wedi ei ddatganoli ac mae'n parhau gyda Whitehall.

Yr ydym yn ddiweddar wedi dechrau gweithio'n agosach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym yn gyfarwydd â Map Llwybr Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cynllun Gweithredu, Gofyniad Statudol y Cynulliad ar Gynaliadwyedd, y strategaeth Microgynhyrchu a hefyd rai o'r trafodaethau penodol a gynhaliwyd yn y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys y ddatl ar Newid yn yr Hinsawdd ar 6 Rhagfyr 2006 a ddaeth i ben gyda phleidlais unfrydol yn cynnwys cefnogaeth i gymal yn "cydnabod potensial Mesuryddion Smart i gynyddu effeithlonrwydd ynni, a gweithio gyda chyflenwyr ynni i gyflwyno astudiaeth beilot yng Nghymru."

Cyd-destun Polisi

Mewn rhai achosion, mae'r strategaethau a'r datblygiadau polisi yng Nghymru ar y blaen i'r rhai sy'n digwydd mewn mannau eraill. Mae ERA yn ymwybodol iawn o'r cyd-destun polisi ychwanegol ar lefel y DU a'r UE.

Mae Cyfarwydddeb Effeithlonrwydd Defnydd-olaf Ynni a Gwasanaethau Ynni yr UE, a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2005, yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau ddatblygu cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer cyflawni targed arbed ynni o un y cant gan ddefnyddwyr olaf. Mae llywodraeth y DU wedi cynnal ymgynghoriadau a chynhyrchu'r Papur Gwyn ar Ynni ym mis Gorffennaf 2007 i ddiwallu'r angen hwn. Er mwyn cydymffurfio gyda Chyfarwydddeb Gwasanaethau Ynni yr UE, mae'n ofynnol i lywodraeth y DU gyhoeddi cynllun gweithredu cenedlaethol erbyn mis Mai 2008. Mae'r Gyfarwydddeb hon hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gosod mesuryddion amser-defnydd ar sail newydd ac amnewid lle mae'n gost-effeithlon i wneud hynny; rhaid dod â chynlluniau ar gyfer y mesur hwn i gyfraith y DU erbyn 2008. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn arwain ar bolisi o ddod â darpariaethau'r Gyfarwydddeb i gyfraith y DU.

Amlinellodd y Papur Gwyn ar Ynni a gynhyrchwyd gan Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddiol y DU (BERR) dri gweithgaredd bilio a mesuryddion craidd a fyddai'n cynyddu'r ymwybyddiaeth o ddefnydd ynni a gostwng defnydd:

Gwybodaeth ar filiau: i hyrwyddo ymwybyddiaeth am ddefnydd ynni domestig drwy ofyniad ar gyflenwyr ynni i gyflwyno data defnydd ar filiau defnyddwyr i'w galluogi i gymharu gwahanol gyfnodau o ddefnydd ynni;

Arddangos gwybodaeth: i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddefnydd ynni domestig drwy ofyniad i roi unedau arddangos amser-real i rai cwsmeriaid fel y medrant weld mewn amser real, ac mewn ffordd sy'n berthnasol iddynt, faint o ynni y maent yn ei ddefnyddio a faint yw'r gost; a

Cyflenwi ar unwaith: i sicrhau y byddai cwsmeriaid busnes yn y sectorau hynny o'r farchnad lle'r oedd yn awr yn gost-effeithlon yn derbyn Mesuryddion Smart dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r ERA yn rhoi cefnogaeth lawn i'r amcanion hyn o roi cwsmeriaid yn y sedd yrru ond credwn mai dim ond os yw llywodraeth y DU

yn gwneud ymrwymiad diamwys i Fesuryddion Smart yn ei Fesur Ynni sy'n dilyn ei Bapur Gwyn presennol ar Ynni y gall hyn ddigwydd.

Gwaith y Diwydiant Adwerthu Ynni ar effeithlonrwydd ynni domestig

Mae goryffwrdd rhwng amcan gostwng gollyngiadau carbon o adeiladau domestig a'r nod o wella effeithlonrwydd ynni. Ond nid yw'r ddau beth yr un fath. Mae'n neilltuol o bwysig na chaiff y ddau amcan eu cymysgu wrth ddatblygu polisiau i ostwng tlodi tanwydd. Enghraifft o ddryswch posibl o'r fath yw'r cynigion newydd gan DEFRA ar y Targed Gostwng Gollyngiadau Carbon (CERT) rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2011. Yn y cynigion hyn, bwriedir i fesurau effeithlonrwydd ynni, megis insiwleiddio a gwresogi, gyflawni targedau gostwng carbon yn hytrach na thargedau arbed ynni. Cred ERA ei bod yn fwy effeithlon mynd i'r afael â thargedau arbedion ynni fel rhan o Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni (EEC) y cwmnïau cyflenwi. O safbwynt y cyflenwyr, CERT a'i fesurau cysylltiedig yw'r prif gynllun ar gyfer gostwng carbon.

Ar gyfer Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), y targed ar gyfer gostwng gollyngiadau carbon yw 42MtC (tunnell o garbon) rhwng 2008-11. Y prif fater o gonsyrn i'r ERW yw'r gyfran uchel sy'n rhaid ei gyflawni o aelwydydd 'grŵp blaenoriaeth', a gynigir ar hyn o bryd ar 40%. Nid yw ERA yn credu ei bod yn bosibl cyflawni'r targed hyn drwy fesurau cost effeithlon. Os yw dulliau drutach i'w defnyddio er mwyn cyrraedd targed llywodraeth y DU, mae hyn yn debygol o gael y canlyniad anfwriadol o gynyddu costau ac felly, medrai mesur a fwriadwyd i helpu cwsmeriaid ar incwm isel eu gwthio ymhellach i dlodi tanwydd ac felly gynyddu'r nifer mewn tlodi tanwydd yn y tair blynedd nesaf.

Y mesur allweddol ar gyfer arbed carbon dan CERT yw insiwleiddio walïau ceudod yn y grŵp blaenoriaeth. Mae tystiolaeth a gynhyrchwyd ar y cyd gan ERA a'r Gymdeithas Insiwleiddio Genedlaethol (NIA) yn dangos yn glir nad oes digon o botensial ar gyfer targed grŵp blaenoriaeth o 40%. Mae'r ERA yn cynnal trafodaethau gyda swyddogion DEFRA ar hyn o bryd gyda'r nod o gytuno ar darged mwy realistig.

Mae ERA hefyd yn gweithio gyda DEFRA, a hefyd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i ddynodi dulliau wedi'u ffocysu'n well ar gyfer targedu aelwydydd mewn

tlodi tanwydd. Ar hyn o bryd ni chaiff 30-48% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd eu cyfrif fel rhan o'r grŵp blaenoriaeth ac nid yw mwyafrif y grŵp blaenoriaeth mewn tlodi tanwydd.

Mesuryddion Smart

Mae'r Gymdeithas Adwerthu Ynni, a'r cwmnïau sy'n aelodau o'r Gymdeithas, yn gryf o'r farn ei bod yn annhebygol y caiff amcanion effeithlonrwydd ynni a gostwng carbon yr UE, llywodraeth y DU, ac yn wir Lywodraeth Cynulliad Cymru, eu cyflawni gyda'r trefniadau technolegol a gweinyddol presennol ar gyfer mesuryddion a bilio. Mae angen gweithredu'r dechnoleg newydd sydd ar gael ar gyfer y rhyngwyneb rhwng cwsmer a'r cyflenwr a thrwy wneud hynny roi'r cwsmer mewn rheolaeth o'u defnydd ynni eu hunain a rhoi'r wybodaeth iddynt i seilio'r defnydd hwn arni.

Mesuryddion Smart yw'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion trydan a nwy. Bydd hyn yn arwain at ddiwedd amcangyfrif bilïau a darlleniadau mesurydd, a rhoi gwybodaeth fanwl gywir i gwsmeriaid a chyflenwyr ynni ar faint o drydan a nwy sy'n cael eu defnyddio. Byddant hefyd yn rhoi llwyfan ar gyfer datblygu llawer mwy o ddewis mewn tariffau ynni a gwasanaethau i bob cartref.

Mae Mesuryddion Smart yn galluogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau ar faint o ynni y maent am ei ddefnyddio. Bydd cyflenwyr yn gosod systemau cyfathrebu dwyffordd sy'n arddangos gwybodaeth amser-real ar ddefnydd ynni yn y cartref i ddefnyddwyr ac yn ôl i'r cyflenwr ynni. Yn ychwanegol, mae Mesuryddion Smart yn galluogi:

Tariffau hyblyg sy'n mesur defnydd dros gyfnodau penodol

Darlleniadau mesuryddion awtomatig a go iawn a fydd yn golygu diwedd bilïau amcangyfrif

Gallu i werthu ynni'n ôl i'r cyflenwr a fydd yn hwyluso technoleg microgynhyrchu (e.e. paneli solar neu dyrbinâu gwynt)

Defnyddio'r un mesuryddion trydan a nwy ar gyfer pob cwsmer, p'un ai ydynt yn gwsmeriaid blaendalu neu gredyd

Cynyddu cywirdeb darogan y galw am ynni ar wahanol gyfnodau o'r dydd.

Er mwyn sicrhau bod rhaglen gyflwyno lwyddiannus ar gyfer Mesuryddion Smart, cred yr ERA ei bod yn hanfodol fod y cyfnodau cynllunio mor drwyadl a llyfn ag sydd modd. Mae'r ERA wedi cyhoeddi Fframwaith Gweithredol Mesuryddion Smart yn ddiweddar, a'i ddosbarthu i ranndeiliaid sydd â diddordeb mewn gweithrediad Mesuryddion Smart. Roedd hyn yn cynnwys swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Fframwaith yn amlinellu manylion technegol sut y bydd Mesuryddion Smart yn gweithio, a sut y'u dosberthir. Mae'r diwydiant yn ymroddedig i gyflwyno Mesuryddion Smart ar gyfer trydan a nwy i aelwydydd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Bydd y diwydiant angen rhaglen uchelgeisiol o ymweliadau cartref. Gyda 45 o fesuryddion domestig ledled Prydain Fawr i'w gosod, mae ymestyn Mesuryddion Smart yn argoeli bod yn fwy helaeth na thrawsnewidiadau technolegol a chymdeithasol eraill megis digidoli, darpariaeth nwy Môr y Gogledd i gartrefi ac, yn fwy diweddar, gyflwyno Chip and Pin. Os caiff y mandad angenrheidiol gan y llywodraeth, bydd y diwydiant yn buddsoddi i gyflwyno Mesuryddion Smart ac yn anelu i sicrhau ar ôl cynllun ymestyn 10 mlynedd, y bydd gan bob cartref yng Nghymru a gweddill Prydain ddull mwy manwl gywir o filio am ynni.

Mae'r diwydiant yn awyddus iawn i ddechrau'r broses hirfaith a chymhleth hon. Fodd bynnag, ni all ein diwydiant gyflwyno Mesuryddion Smart heb fandad gan y llywodraeth i wneud hynny, oherwydd gofynion statudol yn ymwneud â chystadleuaeth. Dim ond gyda mandad gan y llywodraeth y medrwn weithio gyda'r rheoleiddiwr i sicrhau y caiff Mesuryddion Smart eu hymestyn mor effeithiol a chost-effeithlon ag sydd modd, ac y gwiredir gostyngiadau mewn gollyngiadau carbon.

chnad gystadleuol a rôl y RheoleiddiwrY far

Ofgem yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y diwydiant cyflenwi ynni. Daeth Ofgem i'r casgliad y dylai barhau i ddiabyddu ar gystadleuaeth i sicrhau arloesedd, tra'n ceisio dileu unrhyw rwystrau i arloesedd. Nid yw'n fwrriad gan Ofgem iddi fod yn orfodol i ymestyn mesuryddion smart, un ai drwy roi'r gorau i'r farchnad gystadleuol mewn mesuryddion neu drwy oblygiad ar gyflenwyr. Mae Ofgem wedi cydnabod y medrai cwsmeriaid wneud eu trefniadau eu hunain, ond mae wedi derbyn mai ychydig, yn neilltuol yn y farchnad ddomestig, fyddai'n dewis gwneud hynny. Mae hefyd wedi gwrthod y cysyniad o'i gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid wneud eu trefniadau mesuryddion blaengar eu hunain.

Mater pwysig arall yw, oherwydd y farchnad gystadleuol mewn mesuryddion, y medrai gwahanol gyflenwyr a chwmnïau mesuryddion ddefnyddio amrediad o dechnolegau heb ddull gweithredu cyffredin. Mewn marchnad gyflenwi gystadleuol, mae risg, lle mae cwsmeriaid yn newid cyflenwr, na fyddai eu cyflenwr yn dymuno defnyddio'r mesurydd "smart" presennol, na fyddai wedyn o fawr o werth. Mae Ofgem a'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai gadael asedau o'r fath yn rhwystr posibl i fesuryddion blaengar, ac mae Ofgem yn hwyluso trafodaeth gyda'r diwydiant gyda golwg ar hyrwyddo trefniadau a gytunwyd ar ryng-weithioldeb.

Treialon Mesuryddion Smart gan Ofgem

Mae Ofgem yn cynnal treialon ar Fesuryddion Smart mewn gwahanol rannau o'r DU ar hyn o bryd, yn cynnwys yng Nghymru. Wrth lansio'r treialon ym mis Gorffennaf 2007, dywedodd Ofgem: "Bydd Ofgem, y rheoleiddiwr ynni, yn gweinyddu'r treialon graddfa-fawr cyntaf ym Mhrydain ar uwch fesuryddion ynni a fedrai helpu i ostwng defnydd ynni mewn cartrefi. Dan raglen o £10 miliwn gan y Llywodraeth, gydag arian cyfatebol gan bedwar cyflenwr ynni, caiff mesuryddion eu gosod mewn tua 15,000 o gartrefi ym Mhrydain i roi adborth os byddent yn helpu cwsmeriaid i wella effeithlonrwydd ynni. Bydd 8,000 o gartrefi eraill yn derbyn unedau arddangos annibynnol yn dangos defnydd ynni mewn punnoedd a cheiniogau. Bydd y treialon - a weinyddir gan Ofgem dros y ddwy flynedd nesaf - yn profi sut mae cwsmeriaid yn ymateb i'r dyfeisiau newydd hyn ac i filiau ynni cliriach ac amlach. Er mwyn gostwng rhwystrau ar y defnydd o fesuryddion smart, mae Ofgem wedi ffurfio grŵp i'r diwydiant cyfan gytuno ar y safonau gofynnol ar gyfer y mesuryddion ac edrych beth sydd angen ei newid yn rheolau'r diwydiant i adael i'r diwydiant eu defnyddio'n ehangach. Bydd Ofgem hefyd yn rhoi adroddiadau chwe-misol i'r llywodraeth ar y treialon ac adroddiad terfynol unwaith y cwblheir y treialon yn 2010."

Y pedwar cwmni ynni sy'n cymryd rhan yn y treialon yw EDF Energy, E.on UK, Scottish & Southern Energy a Scottish Power. Dewiswyd y cwmnïau hyn ar ôl proses dendro a gynhaliwyd yn 2006. Fel rhan o gyflenwi eu gwybodaeth ar gyfer y treialon, bydd y pedwar cwmni yn defnyddio chwe chwmni gwahanol sydd â dyfeisiau mesurydd/adborth, pedwar cwmni TG arbenigol, dwy elusen a thair prifysgol. Mae Ofgem wedi penodi'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy gyda Phrifysgolion Rhydychen a Surrey i werthuso canlyniadau a chymharu canfyddiadau o'r gwahanol ymagweddau at arbed ynni sy'n cael eu treialu. Mae pob cwmni sy'n cymryd rhan yn cynnal amrediad o dreialon i ganfod ymateb defnyddwyr i wahanol ymyriadau yn cynnwys cyfuniad o rai neu'r cyfan o'r dilynol: gwella bilio (gydag a heb Fesuryddion Smart), gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni, ymrwymiad cymunedol, unedau arddangos gweledol a Mesuryddion Smart.

Mewn ymateb i Gwestiwn yn y Cynulliad a gyflwynwyd gan Mick Bates AC ar 25 Medi 2007, dywedodd Jane Davidson AC, Gweinidog Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth y Cynulliad: "Bu swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn trafodaethau gyda Scottish and Southern Energy am gynllun peilot yng Nghymru. Cynhelir cynllun peilot yn ardal De Cymru a bydd yn treialu ystod o ymagweddau a thechnolegau. Bydd yr opsiynau a gaiff eu treialu yn cynnwys: gwell gwybodaeth bilio, gosod mesuryddion arddangos, gosod Mesuryddion Smart y medrir eu darllen o bell (h.y. dim arddangosiad gweledol i gwsmeriaid), a gosod mesuryddion smart gyda'r arddangosiad gweledol. Dewisir hefyd grŵp o gwsmeriaid ar gyfer dibenion rheoli. Rhagwelir y bydd yr holl Fesuryddion Smart wedi eu gosod erbyn Ionawr 2008. Cesglir cryn dipyn o ddata o'r cynllun peilot, a fydd yn ystyried agweddau megis effeithlonrwydd cost yn ogystal ag arbedion a ddynodir ac unrhyw newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr." Mae ERA yn croesawu'r cyfle a gyflwynir gan y treialon hyn, yn arbennig wrth godi ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid am fanteision Mesuryddion Smart. Ond gobeithiwn na fydd y treialon ynddynt eu hunain yn achosi oedi proses y llywodraeth yn rhoi mandad i'r diwydiant i ddechrau'r gwaith cymhleth sydd ei angen i gychwyn gweithredu Mesuryddion Smart.

Adran 3: Crynodeb

Mae cyflwyno Mesuryddion Smart yn un penderfyniad a fedrai gael effaith enfawr ar reolaeth cwsmeriaid ar eu defnydd o ynni ac felly gynorthwyo gydag ymwybyddiaeth cwsmeriaid o ddefnydd ynni a gostyngiad dilynol mewn defnydd domestig o ynni ac mewn gollyngiadau carbon.

Bydd defnydd eang o Fesuryddion Smart yn annog mwy o ddefnydd o ficrogynhyrchu, yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gan y bydd yn awtomatig yn galluogi allforio ynni o adeiladau domestig

Mae gan gwmnïau yn y diwydiant cyflenwi ynni oblygiad statudol i gystadlu, ac felly mae angen mandad gan y llywodraeth i gyflwyno Mesuryddion Smart ledled Prydain

Byddai cyflwyno Mesuryddion Smart yn gynllun sylweddol a byddai cyfle am ymgyrch wybodaeth ac addysg i gwsmeriaid ar sut y defnyddir ynni yn y cartref yn fantais glir o hyn

Mae'r broses o fesur a bilio ynni domestig yn feichus ar hyn o bryd ac yn aml yn cynhyrchu biliau amcangyfrif anghywir ar gyfer cwsmeriaid. Mae hyn yn anfoddfaol, megis y broses bresennol o gasglu taliad, sydd hefyd yn ddardd i'r cwmnïau cyflenwi ynni i'w gweithredu. Bydd Mesuryddion Smart yn newid hyn i gyd.

Adran 4: Argyhmhellion

Beth all Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei wneud?

Er mai Whitehall sy'n bennaf gyfrifol, mae nifer o gamau y medrai'r Cynulliad eu cymryd i gyfrannu at y broses o foderneiddio

mesuryddion ynni domestig, yn cynnwys

Cyfrannu at yr ymgynghoriad cyfredol ar y Papur Gwyn ar Ynni

Annog Llywodraeth y DU i gynnwys mandad i'r diwydiant cyflenwi ynni i gyflwyno Mesuryddion Smart mewn deddfwriaeth yn y dyfodol agos

Peidio gadael i Ddyfeisiau Arddangos Trydan dynnu eu sylw

Gweithio gyda'r diwydiant i addysgu cwsmeriaid am fanteision Mesuryddion Smart er mwyn hwyluso eu hystyn mewn modd llyfn Cadw'r momentwm yn y drafodaeth i gadw arloesedd yn symud ymlaen.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Cymdeithas Adwerthu Ynni/Energy Retail Association

4th floor, 17 Waterloo Place

Llundain SW1Y 4AR

Ffôn. 020 7930 9175

E-bost. info@energy-retail.org.uk

Gwefan. www.energy-retail.org.uk

www.energy-retail.org.uk

Swyddfa Materion Cyhoeddus Cymru:

E-bost: E

energy-retail@m-j-associates.com